Llŷr Titus

# Cerdyn Post Creadigol- Boston




Annwyl bawb,

Taflwyd y got i'r bin yn y maes awyr. Dim byd o'i le ar ei ffit hi, rhywun yn teimlo weithiau ei bod hi braidd yn dynn ond wedyn fe oedd hi wedi gwneud yn dda rioed ond doedd hi'm yn gweddu. Yn enwedig am fod yna lond gwlad o gotiau y tu draw i ddrysau Terminal E Logan a'i Dunkin Donughts a'i thoileda rhyfadd.

Wrth ei phledu dyma sylwi arni'n iawn-edau-Twmoddychtaid,brawd, mab,pwdidyffrindiadi,Cymro,ddimynlecioffwtbol,penllŷn- yn dal rhyw batsiys,- sgwennumaeo, golyguagneudphdaballu, bachynodndi, diennillynsteddfod, bachynisalondishd. A canmil o rai eraill hefyd ond buan iawn yr aeth hi i ganol papurau a hen gwpanau diod.

Dyma fynd at deiliwr wedyn- un hen mewn siop wedi'i gweu at ei gilydd hefo brics, coed ac oglau cotwm cynnes. Ac mi estynnodd honno edau iaith arall- crwydrodinas, coctelsaprynnupitsafesulsleisan,pwydachilly a defnydd nad oedd yna hoel dim byd arno fo a llusgo cot newydd o'r llanast ac roedd honno'n werth pob dolar ac efo lle i dyfu iddi. Mi wnaeth yn champion am sbel.

Yna dychwelyd a'r got newydd yn cael ei cholli hefo'r cesus rhywle rhwng Dulyn a Manceinion. Ond wrth fynd am y gwely wedi dod i'r tŷ i fwrw'r gwahaniaeth oriau ymaith drwy gwsg sylwodd fod yr hen got yn hongian ar gefn y drws. Ac oedd, roedd hi'n ffitio o hyd, dim ond ei bod hi braidd yn dynn weithiau.

Hwyl chi,

Llŷr

At olygyddion **Y STAMP**
Byncer cyfrinachol yng nghyffiniau

LLANRHYSTUD.

Cymru.

Ewrop.

Yn y byd a'r bydysawd.

http://ystamp.cymru | @ystampus | Facebook: ystampus | Instagram: cylchgrawn_y_stamp | golygyddion.ystamp@gmail.com